**CYNGOR GWYNEDD**
**DEDDF DIOGELU DATA 1998**
**FFURFLEN GAIS MYNEDIAD I WYBODAETH BERSONOL**

Dan Ddeddf Diogelu Data 1998, mae gennych hawl i wneud cais i weld y data personol a ddelir gan Gyngor Gwynedd amdanoch chi.
Bydd cwblhau'r ffurflen hon yn ein galluogi i ddod o hyd i'ch gwybodaeth yn gyflym ac effeithlon.

**Cyn i chi gwblhau'r ffurflen, darllenwch y nodiadau ar ddiwedd y ddogfen.**

**RHAN 1 – PRAWF O BWY YDYCH CHI**

1. Ai chi yw'r sawl sydd dan sylw yn y data ? (Ticiwch y blwch perthnasol)

Ia ☐ Ewch i Ran 1 (a) Na ☐ Ewch i Ran 1 (b)

1 (a)
Cyflwynwch brawf o bwy ydych chi sy'n nodi eich enw arno h.y. **pasbort, trwydded yrru, tystysgrif geni (copïau) neu o leiaf ddau lythyr swyddogol megis gan gwmni trydan/dwr/nwy/ffôn (gwreiddiol)**

Nodwch isod y dystiolaeth yr ydych wedi ei chyflwyno:

Tystysgrif Geni ☐ Pasbort ☐

Trwydded Yrru ☐ Dau Lythyr Swyddogol ☐

Arall (nodwch)

**1 (b)**
A ydych chi wedi derbyn caniatâd y sawl sydd dan sylw yn y data neu awdurdod cyfreithiol arall, i weithredu ar eu rhan?

Do ☐ Naddo ☐

Os do, nodwch eich perthynas â'r sawl sydd dan sylw yn y data e.e. rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol neu gyfreithiwr.

Cyflwynwch brawf bod gennych awdurdod cyfreithiol i gael y wybodaeth hon. Gallai'r prawf fod yn llythyr ffurfiol yn cadarnhau eich awdurdod, neu dystiolaeth fod gennych hawl i weithredu ar ran yr unigolyn e.e. o dan bŵer twrnai priodol neu fel dirprwy o dan y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Ni dderbynnir llungopïau. Unwaith y byddwn wedi'n hargyhoeddi eich bod wedi derbyn caniatâd, byddwn yn gwneud copïau o'r dogfennau yr ydych wedi'u cyflwyno i ni a byddwn yn dychwelyd y copi gwreiddiol atoch chi. Mae Cyngor Gwynedd yn cadw'r hawl i wneud cais am brawf pellach o'ch awdurdod os bydd angen.

Nodwch isod pa brawf a amgaewyd gennych:

**RHAN 2 – MANYLION Y SAWL SYDD DAN SYLW YN Y DATA**

2 (a) – Manylion y person

Cyfenw:

Enw cyntaf:

Enwau blaenorol/eraill:

Dyddiad geni:

Unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael e.e. Rhif Yswiriant Gwladol

**Cyfeiriad presennol:**

Rhif a Stryd y Tŷ/Fflat:

Tref/Dinas:

Sir:

Cod Post:

Rhif Ffôn:

Nodwch fanylion unrhyw gyfeiriadau blaenorol y credwch y gallai fod o gymorth gyda'r cais hwn.

| |
|---|
| |

**OS MAI CHI YW'R SAWL SYDD DAN SYLW YN Y DATA, EWCH YMLAEN I RAN 3**

2 (b) – Manylion y person sy'n gwneud cais am y wybodaeth (os nad chi yw'r sawl sydd dan sylw yn y data)

| | |
|---|---|
| Cyfenw: | |
| Enw cyntaf: | |
| Enw'r cyfreithiwr (os yw'n berthnasol): | |
| Rhif y Tŷ/Fflat a Stryd | |
| Tref: | |
| Sir: | |
| Cod Post: | |
| Rhif ffôn: | |

A ydych chi'n dymuno i'r wybodaeth gael ei hanfon atoch chi neu at y sawl sydd dan sylw yn y data?

Fi: ☐ Y sawl sydd dan sylw yn y data: ☐

**RHAN 3 – DOD O HYD I'CH COFNODION**

**Er mwyn i ni ddod o hyd i'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio'n gyflym ac effeithlon, gofynnwn i chi gwblhau'r adran(nau) isod. Os nad ydych yn sicr, nodwch ymhle yr ydych yn credu mai'r wybodaeth wedi ei chadw.**

| | |
|---|---|
| Adran: | |

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth os ydych yn gwybod pa un: | |
| Amcangyfrif o'r dyddiad pan wnaed y cyswllt â'r gwasanaeth: | |
| Enw'r Swyddog (os ydych yn gwybod) | |

Disgrifiwch pa wybodaeth yr hoffech ei derbyn:

**Ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol rhowch y wybodaeth ychwanegol a ganlyn os yw'n berthnasol:**

| | |
|---|---|
| Enw'r Cartref Plant: | |
| Enw'r Gofalwr Maeth: | |

**NODWCH NAD OES MODD I NI DDARPARU COPÏAU O GOFNODION YSGOL – RHAID I CHI GYSYLLTU'N UNIONGYRCHOL A'R YSGOL BERTHNASOL.**

**RHAN 3 - TALIAD**

Fel y caniateir o dan y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd yn codi ffi o £10 am brosesu ceisiadau. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i Gyngor Gwynedd.

**RHAN 4 – DATGANIAD**

Darllenwch y datganiad a ganlyn yn ofalus ac yna llofnodwch y datganiad a'i ddyddio. Nodwch y gallai unrhyw un sy'n ceisio'n camarwain gael eu herlyn.
Rwyf i, ………………………………… yn tystio fod y wybodaeth yr wyf wedi'i nodi ar y cais hwn i Gyngor Gwynedd yn wir. Deallaf fod rhaid i'r Cyngor gadarnhau pwy wyf i/y sawl sydd dan sylw yn y data ac efallai y bydd y Cyngor yn gofyn am ragor o fanylion gennyf er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth gywir.

Llofnod: ………………………….. ……. Dyddiad:…………………

**RHESTR WIRIO**
Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau'r ffurflen a thiciwch y blychau isod:

A ydych chi wedi cwblhau'r rhannau perthnasol? ☐

A ydych chi wedi llofnodi'r ffurflen a'i dyddio? ☐

A ydych chi wedi cyflwyno prawf priodol o bwy ydych chi/prawf o'ch awdurdod? ☐

A ydych chi wedi amgáu taliad? ☐

**Anfonwch y ffurflen at:**

Y Rheolwr Gwybodaeth
Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Nodiadau**

**Y sawl sydd dan sylw yn y data**: Dyma'r person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef / â hi.

**Prawf o bwy ydych chi**: Y rheswm yr ydym yn gofyn am brawf o bwy ydych chi yw er mwyn cadw'r wybodaeth yr ydym yn ei dal amdanoch chi'n ddiogel. Bydd hyn o gymorth i ni wneud yn siŵr nad ydym yn datgelu gwybodaeth bersonol amdanoch chi i neb arall. Bydd unrhyw ddogfennau y byddwch chi'n eu hanfon atom yn cael eu dychwelyd atoch chi.

**Cyfeiriadau blaenorol**: Os yw'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio wedi'i chasglu pan oeddech chi'n byw mewn cyfeiriad arall ac eithrio'ch cyfeiriad presennol, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi'n hysbysu o'r cyfeiriad hwnnw fel y gallwn leoli'r wybodaeth yn gyflymach.

**Lleoli eich cofnodion**: Mae Cyngor Gwynedd yn sefydliad mawr gyda sawl adran sy'n ymdrin ag amrediad eang o faterion. Wrth gwblhau'r rhan hon, byddwch yn gwneud yn siŵr bod eich cais yn cael ei ddanfon i'r adran gywir ac o ganlyniad, yn derbyn sylw yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.

**Cofnodion ysgol**: Ni allwn ddarparu copïau o Gofnodion Ysgol i chi gan y cedwir y rhain yn yr ysgolion ac nid yng Nghyngor Gwynedd.

Ni fydd Cyngor Gwynedd yn rhyddhau gwybodaeth heb yr awdurdod cywir ac mae'n cadw'r hawl i ofyn am ragor o brawf o bwy ydych chi, neu o'ch awdurdod, os bydd angen.

.